Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council

DATGANIAD I'R WASG

Llythyr i'r Dyfodol – Cystadleuaeth Maer Tref Caerfyrddin ar gyfer haf 2022

Mae Maer newydd Caerfyrddin, y Cyng. Miriam Moules, yn gwahodd pobl ifanc Caerfyrddin I gyfrannu tuag at ddatblygiad y dref yn y dyfodol drwy gymryd rhan mewn cystadleuaeth a fydd yn cynnwys cyflwyno eu syniadau ac awgrymiadau i'r Maer.

Dywedodd y Maer: ' Rwyf am glywed oddi wrth oedolion ifanc y dref oherwydd bod y dref yn perthyn iddyn nhw llawn gymaint â'r genhedlaeth hŷn, a nhw sydd â'r dyfodol. Bydd digwyddiadau eraill er mwyn clywed oddi wrth y plant yn ystod y flwyddyn i ddod hefyd'.

'Yn y lle cyntaf mae'n ymwneud â chyfleu syniadau i'r rhai a all lunio'r dref - Cyngor y Dref a'r Fforwm Adfywio . Dyma pam nad yw'r gystadleuaeth hon yn gyfyngedig i draethawd ond unrhyw ffordd y gellir cyfleu syniadau ar bapur. Mae awdurdod fel un ni wedi cael trafferth gyda'r fath hwn o ymgysylltu â phobl ifainc felly mae hwn yn syniad newydd i glywed yn uniongyrchol oddi wrth y rhai a fydd yn ddyfodol ein tref'.

Bydd enillydd y gystadleuaeth yn derbyn gwobr o £200.00

<u>Mae manylion ar sut i gymryd rhan yn y gystadleuaeth fel a ganlyn:</u>

Y flwyddyn yw 2050, Sut olwg sy ar Gaerfyrddin – ac yn bwysicach, sut gyrhaeddodd hi yno?
Olrheiniwch lwybr i'r dref ar gyfer yr 28 mlynedd nesaf, trwy'ch 20iau, 30au a 40au, gan ystyried beth hoffech iddo fod yno er mwyn ichi fod eisiau byw yn y dref ar wahanol adegau, a pham.
Os dewiswch ysgrifennu traethawd, y terfyn geiriau yw 2,000 o eiriau, yn Gymraeg neu Saesneg, ond does dim rhaid ysgrifennu traethawd. Gall fod yn gyfuniad o eiriau a mapiau, yn waith graffeg, neu rywbeth arall yn llwyr (cofiwch wirio gyda swyddfa Cyngor y Dref - gweler cyfeiriad e-bost isod - cyn cyflwyno). Y terfyn yw wyth ochr o A4 ar gyfer gwaith graffeg neu gyfuniad o raffeg a geiriau (ond dim mwy na 1,000 o eiriau ar gyfer gwaith cyfryngau cymysg.

Dyma'ch cyfle i ddylanwadu ar y Cyngor Tref, i ddweud wrthym am ba fath o le rydych am fyw ynddo, a'r hyn sy'n wirioneddol bwysig ichi. Bydd yr enillydd yn cael gwobr o ddau gan bunt i'w gwario fel y myn - a chyfle i frolio ar y ffurflen UCAS. Defnyddiwch eich sgiliau, boed mewn daearyddiaeth, hanes, Cymraeg, Saesneg, celf, economeg, gwleidyddiaeth, Technoleg Gwybodaeth… i arddangos eich doniau go iawn ac i fynegi eich syniadau ar gyfer dyfodol Caerfyrddin.

***Rheolau**:*
Mae'r gystadleuaeth yn agored i fyfyrwyr chweched dosbarth ysgolion Bro Myrddin ac Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, a myfyrwyr chweched dosbarth sy'n byw yn nalgylch y cyngor tref ond yn cael eu haddysg yn rhywle arall
Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol.
Rhaid i bob cais gyrraedd Neuadd Ddinesig San Pedr, Caerfyrddin, erbyn 9 o'r gloch y bore ar 21 Medi 2022. Hysbysir yn enillwyr erbyn canol Hydref.
Caiff ceisiadau sy'n hwy na'r terfynau a gytunwyd eu cosbi gan y beirniaid, a gellir eu diarddel.
Rhaid cynnwys taflen flaen gyda phob darn yn nodi: eich enw, cyfeiriad, ysgol a chyfeiriad e-bost, a datganiad taw eich gwaith gwreiddiol yw'r darn, a nifer y geiriau os yw'n berthnasol.

Dylid anfon pob ymholiad at Ysgrifenyddes y Maer, Mrs Eleri James
gejames@carmarthentowncouncil.gov.uk

Alun J Harries - Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin

30ain o Fehefin 2022

Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council

PRESS RELEASE

A letter to the Future – Carmarthen Town Mayor's competition for summer 2022

The new Mayor of Carmarthen Cllr Miriam Moules is inviting the young people of Carmarthen to contribute towards the future development of the town by taking part in a competition that will involve presenting their ideas and suggestions to the Mayor.

The Mayor said: 'I want to hear from the young adults of the town because the town belongs to them as much as the older generation, and the future is theirs. There will be other events to hear from the children during the coming year as well'.

'It's about getting ideas across to those who can shape the town - the Town Council and the Regeneration Forum in the first instance. This is why this competition is not limited to an essay but any way in which ideas can be communicated on paper. Authorities like ours have struggled with this sort of engagement with young people so this is a new idea to hear directly from those who will be the future of our town'.

The winner of the competition will be awarded a prize of £200.00.

Details of how to enter the competition are as follows:

The year is 2050 - what does Carmarthen look like, and more importantly, how did it get there? Trace a path for the town through the next 28 years, through your 20s, 30s and 40s, thinking about what you would need there to be here, so that you would want to live in the town at different points, and why.
If you choose to write an essay, the word limit is 2,000 words, in English or Welsh, but it doesn't have to be an essay. It could be a combination of words and maps, a graphic comic, or something else (please check with the Town Council office – see email address below - before submitting). The limit is 8 sides of A4 for graphical entries, or a combination of graphics and words (but no more than 1,000 words for mixed media).
This is your chance to influence the town council, to tell us what sort of place you want to live in, and what really matters to you. The winner gets two

hundred pounds to spend as they please - and bragging rights for UCAS forms. Use your skills - be it geography, history, Welsh, English, art, economics, Politics, Information Technology or anything else you what to - to showcase what you can do and to express your ideas for the future of Carmarthen.

***Rules**:*
The competition is open to sixth form students at Bro Myrddin and QE High, or students who live in the Town Council area and are educated elsewhere.
The judges' decision is final.
All entries should be received at St Peter's Civic Hall, Carmarthen, by 9am 21st September 2022. Winners will be notified by mid-October.
Entries that exceed the agreed limits will be penalised by the judges, and may be disqualified.
All entries should be accompanied by a cover sheet, stating: Name, School, email address, and a statement that this is your original work, and your word count as applicable.

All enquiries should be sent to the Mayor's Secretary Mrs Eleri James – gejames@carmarthentowncouncil.gov.uk

Alun J Harries - Clerk, Carmarthen Town Council

30th June 2022